# Agenda

## Newport City Council

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Ddydiad: Dydd Mawrth, 23 Gorffennaf 2019

Amser: 5.00 pm

Lleoliad: Council Chambers - Canolfan Dinesig

At sylw: **Pob Aelod o'r Cyngor Dinas**

---

***HYSBYSIAD GWE-DDARLLEDU***

*Gall y cyfarfod hwn gael ei ffilmio ar gyfer darllediad byw neu ddarllediad wedi hynny trwy wefan y Cyngor.*

*Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Maer neu'r Person sy'n Llywyddu yn cadarnhau os yw cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio. Efallai y bydd y delweddau a recordiad sain yn cael eu defnyddio hefyd at ddibenion hyfforddiant o fewn y Cyngor.*

*Yn gyffredinol, nid yw'r ardaloedd eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal seddau cyhoeddus, rydych yn rhoi caniatâd i chi gael eich ffilmio a defnydd posibl o rhai delweddau a recordiadau sain ar gyfer gwe-ddarlledu a/neu ddibenion hyfforddiant.*

*Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch hyn, cysylltwch â Rheolwr Democratiaeth a Cyfathrebu*

**Eitem** | **Wardiau dan Sylw**

1. Rhagofynion
   i. Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb
   ii. Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
   ii. Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y maer.

2. Cofnodion *(Tudalennau 5 - 36)*
   Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf.

3. Penodiadau *(Tudalennau 37 - 40)*
   Ystyried unrhyw benodiadau arfaethedig.

4. Materion yr Heddlu
   Neilltuir 30 munud ar gyfer cwestiynau i gynrychiolydd Heddlu Gwent..

5. Hysbysiadau o Gynnig: Menter Cyfeillion Gwenyn
   Derbyn y cynnig canlynol y mae ' r hysbysiad angenrheidiol wedi ' i ddarparu ar ei gyfer:

   Mae'r awdurdod hwn yn cefnogi menter Caru Gwenyn Cyfeillion y

Contact: Elizabeth Blayney
Tel: 01633 656656
E-mail: democratic.services@newport.gov.uk
Date of Issue: Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019

Ddaear a bydd yn parhau i sicrhau y bydd unrhyw blanhigion sy'n cael eu plannu ym mharciau, gerddi ac ardaloedd gwyrdd y Cyngor yn cefnogi bywydau gwenyn a pheillwyr eraill.

Mae'n bwysig dros ben i economi peillwyr Casnewydd a'r ffaith bod y Cyngor mewn safle da i wneud cyfraniad sylweddol i wrthdroi eu dirywiad.

Yn ogystal, bydd yr awdurdod hwn yn ceisio gwneud Casnewydd yn un o ddinasoedd mawr Cymru i gael achrediad cyfeillgar.
.

Mae ' r cynnig i ' w gynnig gan y Cynghorydd Debbie Wilcox ac eiliwyd gan y Cynghorydd Laura Lacey.

6. <u>Hysbysiad o Gynnig ' Gefeillio Talaith Guangxi '</u>
Derbyn y cynnig canlynol y mae ' r hysbysiad angenrheidiol wedi ' i ddarparu ar ei gyfer:

Mae'r Cyngor yn flin iawn o weld diffyg ymateb Rhanbarth Guangxi i'r llythyr a anfonwyd ar 19 Chwefror 2019, yn gofyn iddynt stopio Gŵyl Cig Cŵn Yulin a thriniaeth warthus o anifeiliaid. Credir nad oes opsiwn ond dod â'r drefn gefeillio sydd wedi bod ar waith ers 1996 i ben, oherwydd nid yw'r Ddinas yn gallu eistedd yn ôl a chaniatáu i'r ymddygiad ffiaidd hwn tuag at anifeiliaid fynd rhagddo.
Felly, mae'r Cyngor yn cynnig yn ffurfiol i ganslo bob trefn gefeillio â Rhanbarth Guangxi yn syth.

Mae ' r cynnig i ' w gynnig gan y Cynghorydd Matthew Evans, a eiliwyd gan y Cynghorydd Chris Evans.

7. <u>Adroddiad Rheoli Trysorlys Blwyddyn Ariannol 2018/2019</u>
*(Tudalennau 41 - 54)*

8. <u>Cwestiynau I Arweinydd y Cyngor</u>
I roi'r cyfle i gynghorwyr ofyn cwestiynau i Gadeirydd y Cabinet yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor.

*Proses: Ni chaiff mwy na 15 munud eu cadw yng nghyfarfod y Cyngor ar gyfer cwestiynau llafar i'r Arweinydd*

*Rhaid i'r cwestiwn cael sylw drwy'r Maer neu'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod ac nid yn uniongyrchol at y person a holir*

9. <u>Cwestiynau I Aelodau Cabinet</u>
I roi'r cyfle i ofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet yn unol â Rheolau Sefydlog

*Proses: Ni chaiff mwy na 10 munud eu cadw yng nghyfarfod y Cyngor ar gyfer cwestiynau i bob Aelod Cabinet unigol.*

*Bydd angen i'r Aelodau cyflwyno eu cwestiynau arfaethedig yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Os nad yw'r aelodau yn gallu gofyn eu cwestiwn ar lafar o fewn yr amser a glustnodwyd, bydd y cwestiynau sy'n weddill yn cael eu hateb yn ysgrifenedig. Bydd y cwestiwn ac ymateb yn cael eu hatodi i'r cofnodion.*

*Rhaid i'r cwestiwn cael sylw drwy'r Maer neu'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod ac nid yn uniongyrchol at y person a holir*

Bydd y cwestiynau yn cael eu gofyn i aelodau'r cabinet yn y drefn ganlynol:

- Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Ddatblygu Asedau ac Aelodau
- Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau
- Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai
- Aelod Cabinet dros y Gymuned ac Adnoddau
- Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Stryd
- Aelod Cabinet dros Trwyddedu a Rheoleiddio
- Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden

*Er Gwybodaeth: Mae crynodeb o amserlenni penderfyniad diweddar a gyhoeddwyd gan y Cabinet, Aelodau Cabinet a Chofnodion cyfarfodydd diweddar y Pwyllgorau wedi cael ei gylchredeg yn electronig at bob Aelod o'r Cyngor.*

10. <u>Cwestiynau I Gadeiryddion Pwyllgorau</u>

Bydd y cwestiynau yn cael eu gofyn i Gadeiryddion Pwyllgorau yn y drefn ganlynol:

I. Pwyllgorau Craffu
- Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu
- Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl
- Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol
- Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

II. Pwyllgor Cynllunio
III. Pwyllgor Trwyddedu
IV. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd